

Digimap for Schools

Prifddinasoedd

Paula Owens

Adnodd Dysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 1-2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap ar gyfer Adnoddau Daeryddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

Teitl: Prifddinasoedd

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 1-2	Prifddinasoedd Prydain Fawr	Llundain, Caerdydd, Caeredin

Gwybodaeth	Closio i mewn a thynnu allan o fap / dod o hyd i leoedd ar fap / darlunio ardal ar fap / ychwanegu labeli
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Dod o hyd i brifddinasoedd a'u henwi ym Mhrydain Fawr gan ddefnyddio geirfa ddaeryddol addas, defnyddio a chreu mapiau
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Defnyddio a chynhyrchu mapiau syml er mwyn dod o hyd i leoedd a chanfod ble mae un lle mewn perthynas â lleoedd eraill.
Cwricwlwm yr Alban dros Ratoriaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd: 2-08a, 2-13a, 2-14a

Gweithgaredd

Disgyblion i ddod o hyd i brifddinasoedd Prydain Fawr a marcio'u ffiniau dinesig gan ddefnyddio'r offeryn 'Area'. Defnyddio'r map a grëwyd i ddisgrifio lleoliad y llefydd hyn a rhai o nodweddion yr ardal. Chwilio am leoliadau penodol a nodi pa ddinas maen nhw'n perthyn iddi. Fel estyniad, mae disgyblion yn gallu trefnu ymweld â'r brifddinas agosaf atynt.

Cyflwyniad

Endid gwleidyddol yw Prydain Fawr sy'n cynnwys Lloegr, yr Alban, Cymru a'u hynsoedd. Nid yw Prydain Fawr yn cynnwys Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel a Gogledd Iwerddon.

Mae'r 'Deyrnas Unedig' yn cyfeirio at 'Deyrnas Unedig Prydain a Gogledd Iwerddon'. Mae'n derm gwleidyddol yn hytrach nag uniad daeryddol.

Mae Ynysoedd Prydain yn derm daeryddol yn hytrach nag un gwleidyddol. Mae'n cynnwys holl brif ynysoedd Prydain ac Iwerddon, yn ogystal ag Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Fel arfer, mae prifddinas yn gweithredu fel canolfan lywodraethol a gweinyddol y wlad ac, yn aml, y brifddinas yw dinas fwyaf y wlad. Mae *Digimap for Schools* yn dangos Prydain Fawr ar wahanol raddfeydd er mwyn i'r disgyblion allu gwerthfawrogi lleoliad y dinasoedd a'r trefi, a hefyd i glosio i mewn er mwyn dod o hyd i dirnodau a enwir, er enghraifft Tŷ'r Cyffredin.

Prif weithgaredd

1 Trafodwch brifddinasoedd Prydain fawr.



- Lloegr, Llundain (prifddinas y DU yn ogystal)
- Cymru, Caerdydd
- Yr Alban, Caeredin

2 Gofynnwch gwestiynau i'r disgyblion am brifddinasoedd. Er enghraifft:

- Beth yw prifddinas?
- Ydyn nhw wedi ymweld â'r dinasoedd hyn?
- Beth ydyn nhw'n ei wybod am y dinasoedd hyn?

3 Dewch o hyd i Lundain, Caerdydd a Chaeredin a'u marcio gan ddefnyddio'r broses ganlynol:

Agorwch *Digimap for Schools*. Gofynnwch i'r disgyblion glosio un lefel gan ddefnyddio'r bar graddfa ac edrychwch am y lleoedd hyn. Dylen nhw ddefnyddio'r offeryn saeth cyfeirio uwchben y bar graddfa i symud y map (er mwyn aros ar y raddfa hon, peidiwch â mewbynnu enw'r lle yn y porwr). Mae'n bosibl y byddai agor Map Trosolwg o'r bar offer yn ddefnyddiol hefyd a'i osod ar ochr chwith y sgrin.





4 Mae'r disgyblion yn mynd i gysgod i'r ardal ddinesig sy'n amgylchynu pob prifddinas.

I wneud hyn, mae angen iddynt agor y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*) a sicrhau bod y tryloywder wedi'i osod ar 50%. Wedyn, dewiswch '*Draw Area*' ac yna '*Draw a Freeform Shape*'. Cliciwch a daliwch y llygoden, gan dynnu'r cysgod tywyllach i gynrychioli ardal y ddinas. Cliciwch unwaith i orffen.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



Er mai Dinas Llundain yw canol Llundain, mae'r ardal a enwir yn 'Llundain' yn cynnwys yr ardal brysur, adeiledig o amgylch y ddinas lle mae llawer o bobl yn byw ac yn gweithio.



Wedyn, dylent labelu'r ddinas. Mae eisoes wedi'i hamlygu ar y map ond pan fyddwch yn tynnu allan o'r map bydd yr enw'n rhy fach i'w ddarllen ac felly mae angen label newydd arno.

Agorwch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*). Dewiswch '*Place Label*' a chlicio '*Next*' er mwyn enwi'r ddinas. Bydd blwch testun yn agor. Copiwch enw'r ddinas i mewn i'r blwch a chlicio '*Save*'.

Ailadroddwch hyn ar gyfer pob dinas.

Tynnwch allan o ganol y map er mwyn gweld y tair dinas. Cadwch y map a'i argraffu (dewiswch olygfa '*Portrait*').

5 Trafodwch y canlyniadau gyda'r disgyblion.

- Beth ydyn nhw wedi sylwi ynghylch lleoliadau'r dinasoedd hyn?
- Pa ddinas sydd bellaf i'r gogledd/de/gorllewin?
- Pa ddinas sydd â'r ardal ddinesig fwyaf?
- Pa ddinas sydd agosaf at arfordir Ewrop?
- Oes yna unrhyw ddinasoedd eraill yn y gwledydd penodol sy'n fwy na'r prifddinasoedd?

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mynd ymhellach

- Dosbarthwch y daflen gwaith 'Chwilio am Ddinas' er mwyn i'r disgyblion allu chwilio am rai o'r lleoedd sydd arni; pa brifddinas maen nhw'n perthyn iddi a beth mae'r disgyblion yn gallu darganfod am y brifddinas honno?
- Ychwanegwch leoliad yr ysgol at fap y prifddinasoedd trwy ychwanegu marciwr a label. Pa brifddinas sydd agosaf? Pa mor bell i ffwrdd yw'r brifddinas?
 - Closiwch i mewn i'r map er mwyn gweld lleoliad yr ysgol a'r brifddinas agosaf. Dewiswch yr offeryn mesur o'r bar offer a chliciwch ar leoliad yr ysgol. Yna, tynnwch ef at y ddinas er mwyn cyfrifo'r pellter mewn cilomedrau.
- Trefnwch ymweliad â'r ddinas. Sut byddwch yn cyrraedd? Beth fyddwch yn ei weld? Ymchwiliwch i leoedd i ymweld â nhw a'u marcio ar fap graddfa fawr o'r ddinas gan ddefnyddio chwiliad cod post.
- Dewch o hyd i'r afonydd sy'n llifo trwy'r dinasoedd hyn. Casglwch wybodaeth er mwyn creu 'Ffeiliau Ffeithiau Prifddinasoedd'.

Dolenni

www.scottish.parliament.uk/

<http://assemblywales.org/index.htm>

www.parliament.uk/visiting/

www.cardiffbay.co.uk/

www.visitlondon.com/events/

www.edinburgh.org/

www.visitcardiff.com/

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrwydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Archwilio Dinas

Enw _____

Archwiliwch y map gan ddefnyddio'r 'Search Box' er mwyn dod o hyd i'r lleoedd canlynol. Beth allwch chi ddarganfod am y lleoedd hyn? Ychwanegwch le o'ch dewis chi.

Chwiliwch am	Pa ddinas?	Pa fath o le yw hwn?
Tŷ'r Cyffredin		
Parc Holyrood		
Bae Caerdydd		
Sedd Arthur		
Parc Cathays		
Palas Buckingham		